**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

# Polisi Addasiadau

**Mai 2023**

| Fersiwn | Disgrifiad o'r Rheswm dros Newid | Awdur | Awdurdodiad | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Polisi gwreiddiol i'w gymeradwyo | IJG | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Pwrpas y Polisi

Addasiad yw newid neu ddarn o offer sy’n ei gwneud yn haws a mwy diogel i unigolyn gydag anabledd aros yn ei gartref. Gall addasiadau amrywio o eitemau syml fel canllaw a chymorth i fynd i mewn ac allan o’r bath, i estyniadau bach.

Gall cartref addas sydd wedi'i addasu'n dda wneud gwahaniaeth mawr a galluogi rhywun i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol.

Mae’r polisi hwn yn nodi sut caiff addasiadau eu hariannu a sut mae’r broses ymgeisio yn gweithio.

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â Pholisi Adnewyddu Tai Mai 2023 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy’n nodi mathau eraill o gymorth a gynigir i berchnogion tai a thenantiaid preifat cymwys yn y sir.

## Deddfwriaeth

Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yw’r fframwaith cyfreithiol sy’n llywodraethu darpariaeth y Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae’n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth grant i berchnogion a thenantiaid cymwys wneud addasiadau er mwyn iddyn nhw allu byw yn eu cartrefi eu hunain mor ddiogel ac annibynnol â phosibl.

Yn 2002 gwnaeth Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 newidiadau mawr i’r gyfundrefn grantiau, a rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddatblygu mathau o gymorth a fyddai’n diwallu anghenion a blaenoriaethau lleol yn well.

**Mathau o gymorth a ddarperir dan y polisi hwn**

Adran 1 – Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl

Mae'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn grant gorfodol dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladau ac Adfywio 1996, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

Mae'r mathau o addasiadau dan y grant hwn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

i) Hwyluso mynediad meddiannydd anabl i mewn ac allan o'r annedd, cwch preswyl cymwys neu garafán

ii) Hwyluso mynediad meddiannydd anabl i ystafell a ddefnyddir neu y gellir ei defnyddio fel prif ystafell y teulu

iii) Hwyluso mynediad meddiannydd anabl i ystafell a ddefnyddir neu y gellir ei defnyddio ar gyfer gysgu, neu ddarparu ystafell o'r fath

iv) Hwyluso mynediad meddiannydd anabl i ystafell a ddefnyddir neu y gellir ei defnyddio fel tŷ bach, neu ddarparu ystafell o'r fath, neu hwyluso defnydd meddiannydd anabl o gyfleusterau o'r fath

iv) Hwyluso mynediad meddiannydd anabl i ystafell gyda bath neu gawod (neu'r ddau), neu ddarparu ystafell ymolchi o'r fath i feddiannydd anabl, neu hwyluso defnydd meddiannydd anabl o gyfleusterau o'r fath

vi) Hwyluso gallu meddiannydd anabl i baratoi a choginio bwyd

vii) Hwyluso mynediad a symudiad meddiannydd anabl o amgylch yr annedd, cwch preswyl cymwys neu garafán er mwyn iddynt ofalu am berson sydd fel arfer yn byw yno ac sydd angen gofal o'r fath

Y grant mwyaf a ellir ei ddyfarnu dan y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yw £36,000, ac mae hynny wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth.

Gwaith cysylltiedig arall

Dan amgylchiadau penodol gall fod angen gwneud gwaith arall i eiddo er mwyn sicrhau diogelwch a chydymffurfiad y gwaith sydd wedi'i wneud dan y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl. Pan fo'r Awdurdod yn ystyried gwaith o'r fath yn hanfodol, bydd y rhain hefyd yn cael eu hariannu dan y polisïau hyn.

Adran 2 – Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol

Mae Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol yn grant dewisol a ellir ei ddefnyddio i ariannu gwaith:

i) Nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl ond sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith addasu yn diwallu anghenion yr unigolyn anabl yn iawn, neu
ii) I ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl "ychwanegol" os yw cost yr addasiadau cymwys yn fwy na'r uchafswm statudol

Er enghraifft:

- Darparu llecyn chwarae diogel i blentyn
- Darparu cyfleusterau ar gyfer triniaeth arbenigol
- Addasiadau er mwyn galluogi preswylydd anabl i weithio gartref

Gellir dyfarnu Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol i dalu cost estyn gwarant y gwneuthurwr ar bob math o offer sydd wedi'i gynnwys yng nghontract cynnal a chadw'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â phrynu a chynnal a chadw cadeiriau esgyn, lifftiau gris a theclynnau codi ac ati. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn berthnasol i bob math o offer y cyfeirir ato yn y contract cynnal a chadw, hyd yn oed os na chafodd yr offer dan sylw ei ddarparu dan y contract (a lle nad oes contract cynnal a chadw wedi'i sefydlu gyda'r contractwr a osododd yr offer). Bydd gwarant y gwneuthurwr (blwyddyn o hyd fel arfer), o'i ychwanegu at y cyfnod gwarant estynedig (pedair blynedd fel arfer), yn gyfartal â chyfnod amodol y cymorth ariannol.

Mewn amgylchiadau lle caiff yr offer sydd wedi'i gynnwys yn y contract cynnal a chadw uchod ei dynnu o'r eiddo, bydd yr Awdurdod, yn ôl ei ddisgresiwn, yn talu'r gost o adfer strwythur yr adeilad. Nid yw'r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol yn cynnwys gwaith adferol.

Mae unrhyw offer wedi'i ariannu drwy'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl neu'r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol yn eiddo i'r unigolyn sy'n cael y grant. O ganlyniad i hyn, pan fydd unrhyw warant gan wneuthurwr yn dod i ben, yr unigolyn hwnnw fydd yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac atgyweirio dilynol.

Os na fydd angen yr offer a ddarparwyd dan yr adran hon mwyach, gall yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu roi'r offer yn ôl i'r awdurdod er mwyn gallu ei ailddefnyddio yn rhywle arall. Os caiff yr offer ei dynnu, bydd y Cyngor yn talu cost resymol hynny ac am unrhyw waith adfer strwythurol yn sgil hynny.

Adran 3 – Cyllid Galluogi

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Galluogi yn grant dewisol trywydd cyflym a ellir ei ddyfarnu i ddarparu addasiadau bach neu ganolig i hwyluso gadael yr ysbyty, neu alluogi ymgeisydd i barhau i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun. Mae'n rhaid i addasiadau canolig gael eu hargymell gan Therapydd Galwedigaethol

(neu asesydd dibynadwy) a gyflogir naill ai yn uniongyrchol gan y Cyngor neu gan Awdurdod Iechyd.

Nid yw'r grant Galluogi yn cynnwys prawf modd.

*Gwaith Cymwys*

Gellir defnyddio cyllid Galluogi i ariannu pethau fel cadeiriau esgyn, lifftiau gris, teclynnau codi, canllawiau, addasiadau i ystafelloedd ymolchi a rampiau. Gall y Tîm Gwelliannau Tai ystyried eitemau a gwaith eraill yn ôl eu disgresiwn.

O ran tenantiaid preifat, mae'n rhaid cael caniatâd y perchennog (landlord) i wneud y gwaith.

Mae unrhyw offer a ddarparwyd dan y grant Galluogi yn eiddo i'r unigolyn a ddyfarnwyd y grant iddo. O ganlyniad i hyn, pan fydd unrhyw warant gan wneuthurwr yn dod i ben, yr unigolyn hwnnw fydd yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw neu gostau atgyweirio dilynol.

Gellir dyfarnu cyllid Galluogi i dalu cost estyn gwarant y gwneuthurwr ar bob math o offer sydd wedi'i gynnwys yng nghontract cynnal a chadw'r Cyngor sy'n gysylltiedig â phrynu a chynnal a chadw cadeiriau esgyn, lifftiau gris a theclynnau codi ac ati. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn berthnasol i bob math o offer y cyfeirir ato yn y contract cynnal, hyd yn oed os na chafodd yr offer dan sylw ei ddarparu o dan y contract (a lle nad oes contract cynnal wedi'i sefydlu gyda'r contractwr a osododd yr offer).

Mewn amgylchiadau lle caiff yr offer sydd wedi'i gynnwys yn y contract cynnal a chadw uchod ei dynnu o'r eiddo, bydd yr Awdurdod, yn ôl ei ddisgresiwn, yn talu'r gost o adfer strwythur yr adeilad. Ni fydd gwaith adfer addurnol yn cael ei ystyried dan y grant Galluogi.

Adran 4 – Asesu gallu'r ymgeisydd i gyfrannu at gost addasiad a ariennir gan y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl neu'r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol

O ddyddiad mabwysiadu'r polisi hwn, ni fydd addasiadau bach a chanolig (sut bynnag y caent eu hariannu) yn destun prawf modd. Fodd bynnag, bydd y prawf modd (fel y nodir yn adran 30 Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996) yn dal yn berthnasol i addasiadau mawr (drutach), a bydd y rhain yn cael eu hariannu gan y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl neu'r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol.

Pan fo prawf modd yn berthnasol i gais am Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, bydd hefyd yn berthnasol i gais am Gymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol, ac eithrio pan gyflwynir ceisiadau cysylltiedig i'r ddau gynllun grant ar yr un dyddiad. Pan fydd hyn yn digwydd, cynhelir y prawf modd unwaith a didynnir unrhyw gyfraniad y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei wneud o gyfanswm y cymorth ariannol a ddyfernir (h.y. cyfanswm y grant gorfodol a'r cymorth dewisol gyda'i gilydd).

Adran 5 – Prawf modd ar gyfer ceisiadau olynol

Os yw ymgeisydd wedi gwneud cais am y grant gorfodol neu'r cymorth dewisol o'r blaen, gall unrhyw gyfraniad y mae wedi'i wneud o ran y cais blaenorol gael ei

ddidynnu o’r cyfraniad gofynnol yn y cais presennol, os yw eu sefyllfa yn bodloni’r meini prawf isod:

a) O ran cais gan berchennog, os oes cais blaenorol wedi’i wneud gan y ‘perchennog’ o fewn 10 mlynedd i ddyddiad cymeradwyo’r cais presennol, ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu Gymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol neu ganiatâd cynllun dynodedig, ar gyfer yr un annedd neu adeilad, a lle mae o leiaf un o'r unigolion perthnasol yn unigolyn perthnasol yn y cais presennol ac i’r gwrthwyneb.

b) O ran cais gan denant, os oes cais blaenorol wedi’i wneud gan y tenant o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cymeradwyo’r cais presennol, ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu Gymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol, ar gyfer yr un annedd neu adeilad, a lle mae o leiaf un o'r unigolion perthnasol yn unigolyn perthnasol yn y cais presennol ac i’r gwrthwyneb.

<u>Adran 6 – Cais am addasiadau ar gyfer plant anabl</u>

Nid yw prawf modd yn berthnasol i gais am Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ar gyfer plentyn gydag anabledd, waeth beth fo gwerth y grant a ofynnir amdano. Ar gyfer ceisiadau o’r fath, bydd y grant (os caiff ei gymeradwyo) yn cwrdd â holl gostau’r gwaith cymwys (hyd at y cyfanswm statudol).

<u>Adran 7 – Addasiadau i unigolion sy’n gymwys ar gyfer gofal lliniarol</u>

Ystyrir Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol hefyd tuag at gost gwaith y mae angen ei wneud er mwyn galluogi unigolion sy’n gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal lliniarol i gael mynediad i'r cartref ac i symud o amgylch y cartref, i ymdrochi a chael gofal personol (boed y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu ai peidio).

Ni fydd y prawf modd yn berthnasol i geisiadau gan unigolion sy’n gymwys i gael gwasanaethau gofal lliniarol os yw cost y gwaith cymwys yn llai na £10,000. Ystyrir ceisiadau lle mae cost y gwaith cymwys yn fwy na £10,000 yn ôl disgresiwn y Cyngor fesul achos, ac yn dibynnu ar argaeledd cyllid.

<u>Adran 8 – Ystyried a yw gwaith addasu yn rhesymol ac yn ymarferol</u>

Wrth ystyried dyfarnu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl neu’r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol, bydd yn rhaid i’r Cyngor fod yn fodlon bod y gwaith addasu yn darparu’r datrysiad hirdymor mwyaf effeithiol, ac ystyried anghenion presennol y meddiannydd anabl, a’i anghenion i’r dyfodol, a nodweddion ffisegol yr eiddo. Mewn rhai achosion, efallai na fydd cartref presennol y meddiannydd anabl yn addas i’w addasu (neu’r eiddo ddim yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn anabl hyd yn oed ar ôl ei addasu). Dan amgylchiadau o’r fath, a gyda chytundeb bob parti, gall y Cyngor ystyried dewisiadau eraill fel helpu’r aelwyd i symud i lety sy’n fwy addas neu a ellir ei wneud yn fwy addas (heb orfod gwneud addasiadau mawr). Os ceir cymorth i helpu pobl i symud i lety mwy addas, bydd hynny’n cael ei ddarparu y tu allan i gwmpas y polisïau hyn.

Adran 9 – Y grant mwyaf a lleiaf y gellir ymgeisio amdano

Fel y nodir uchod y cwm mwyaf y gellir ei ddyfarnu fan y Grant Cyfleusterau Anabledd yw £36,000. Does dim cyfyngiad statudol ar swm y Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol y bydd y Cyngor yn ei ystyried. Fodd bynnag, bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun.

Caiff addasiadau i gartrefi perchnogion neu denantiaid preifat, sy'n debygol o gostio llai na £350, eu darparu ar ran y Cyngor gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, a'u hariannu gan Gofal Cymdeithasol. Nid yw addasiadau dan y cynllun hwn, sef y Gwasanaeth Mân Atgyweiriadau ac Addasiadau, yn destun prawf modd.

Caiff addasiadau sy'n costio rhwng £350 a £1500 eu hariannu drwy Galluogi (gwelwch Adran 9), ac unwaith eto caent eu darparu gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych. Nid yw ceisiadau o'r fath yn destun prawf modd.

Adran 10 – Rhaglen Addasiadau Brys

Wedi'i hariannu a'i darparu gan yr Awdurdod Iechyd, nod y Rhaglen Addasiadau Brys yw cynorthwyo ymgeiswyr cymwys i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl ar ôl bod yn yr ysbyty.

Adran 11 – Gwneud ymholiad ynglŷn â gwaith addasu

Dylid cyfeirio ymholiadau cychwynnol at y Tîm Un Pwynt Mynediad ar 0300 456 1111 neu drwy fynd i https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Forms/Form-Conwy-Access-Team-Enquiry.aspx a bydd eich ymholiad yn cael ei anfon at y gwasanaeth priodol.

Os yw'r tîm yn credu bod addasiad yn ffordd briodol i fynd i'r afael ag anghenion tai unigolyn anabl, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at Therapydd Galwedigaethol. Mae'n rhaid i bob addasiad gael ei gefnogi gan naill ai Therapydd Galwedigaethol neu Asesydd Dibynadwy.

| Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl | |
|---|---|
| Beth ydi'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl? | Mae'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn grant gorfodol tuag at gost addasiadau i gartref rhywun sydd ag anabledd er mwyn iddyn nhw allu byw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. |
| Pwy all ymgeisio? | Perchen-feddianwyr, tenantiaid preifat a thenantiaid cymdeithasau tai (dan rai amgylchiadau). |
| Faint all rhywun wneud cais amdano? | Y grant mwyaf a ellir ei ddyfarnu wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, sef £36,000 ar hyn o bryd yng Nghymru. |
| Ydi'r grant yn cwrdd â holl gostau'r gwaith addasu? | Ydi, ar gyfer addasiadau bach a chanolig.<br>Bydd addasiadau mawr wedi'u hariannu drwy'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn destun prawf modd. |
| Addasiadau ar gyfer plentyn anabl | Does dim prawf modd ar gyfer unrhyw gais am Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ar gyfer plentyn. |
| Addasiadau ar gyfer unigolion sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol | Nid yw unigolion sy'n gwneud cais am Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ar gyfer gwaith angenrheidiol i ganiatáu mynediad i mewn ac o amgylch y cartref, ar gyfer bathio a gofal personol, ac sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal lliniarol yn destun prawf modd os yw'r cais yn £10,000 neu lai. |
| Oes angen ad-dalu'r grant? | Bydd amodau Grant yn berthnasol i ddyfarniad o Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl sydd dros £10,000. Mewn amgylchiadau lle mae angen ad-dalu, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ad-dalu'r Awdurdod unrhyw gyfanswm sydd wedi'i dalu ac sydd dros £5,000. |

| Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol | |
|---|---|
| Beth ydi'r Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol? | Mae Cymorth Cyfleusterau i Bobl Anabl Dewisol yn grant dewisol a ellir ei ddefnyddio i ariannu gwaith:<br><br>Nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ond sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith addasu yn diwallu anghenion yr unigolyn anabl yn iawn, neu<br><br>I ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl "ychwanegol" os yw cost yr addasiadau cymwys yn fwy na'r swm statudol |
| Pwy all ymgeisio? | Perchen-feddianwyr, tenantiaid preifat a thenantiaid cymdeithasau tai (dan rai amgylchiadau). |
| Ydi'r grant yn cwrdd â holl gostau'r gwaith? | Ydi, ar gyfer addasiadau bach a chanolig.<br>Ond ddim addasiadau mawr (gwelwch Adran 5 uchod). |
| Oes angen ad-dalu'r grant? | Fel yr uchod ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. |

| Grant Galluogi | |
|---|---|
| Beth ydi'r Grant Galluogi? | Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Galluogi yn grant dewisol trywydd cyflym a ellir ei ddyfarnu i ddarparu addasiadau bach neu ganolig i hwyluso gadael yr ysbyty, neu alluogi'r ymgeisydd i barhau i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun. |
| Pwy all ymgeisio? | Perchen-feddianwyr, tenantiaid preifat a thenantiaid cymdeithasau tai (dan rai amgylchiadau). |
| Ydi'r grant yn cwrdd â holl gostau'r gwaith? | Dydi addasiadau sydd wedi'u hariannu dan y grant Galluogi ddim yn destun prawf modd. |
| Oes angen ad-dalu'r grant? | Nac oes |

**This document is also available in English.**